Y Llwynog cyfrwys

Parch at fywyd / Colli cyfle

Yn gynnar yn y gwanwyn roedd y ddwy alarch wrthi'n codi nyth ar lan yr afon. Bob dydd, am ddyddiau bu'r elyrch wrthi'n brysur yn llunio'r nyth yn ofalus. Roedd y nyth mewn llecyn anodd iawn i fynd ato. Y llynedd doedden nhw ddim wedi bod yn llwyddiannus iawn. Deuddydd ar ôl i'r wyau ddeor a'r cywion bach yn dechrau ymysgwyd yn y nyth daeth llwynog heibio a mynd a'r cywion i gyd. Felly roedden nhw am fod yn fwy gofalus y flwyddyn hon.

Roedd chwech o wyau mawr gwynion yn y nyth. Eisteddodd yr iâr yn dynn ar y nyth a'r ceiliog yn nofio o gwmpas a chadw golwg. Weithiau bydd ef yn cymryd drosodd er mwyn i'r iâr gael bwydo. Yr iâr oedd yn treulio'r rhan fwyaf o amser ar y nyth.

Un bore braf, ddechrau mis Mai roedd y ceiliog a'r iâr yn hapus iawn. Roedd yr wyau wedi deor a chwech o gywion bach yn y nyth. Nofiai'r ceiliog yn osgeiddig o gwmpas y nyth. Fel roedd y dyddiau yn mynd rhagddynt roedd y cywion yn mynd yn anniddig iawn yn y nyth. Roedden nhw'n dringo dros ochr y nyth er mwyn cael mynd i'r dŵr.

Dyma'r diwrnod mawr yn cyrraedd. Y ceiliog a'r iâr ar y blaen a'r cywion bach yn dilyn fesul un – chwech ohonyn nhw. Na, dim ond pump oedd yna. Ond ble roedd y chweched? Bu'r ceiliog a'r iâr yn chwilio'n ddyfal amdano. Ond doedd yna ddim golwg ohono'n unman. Beth petai'r llwynog yn dod heibio?

Drwy'r bore bu'r ceiliog a'r iâr yn chwilio amdano. Ond roedd rhaid cadw golwg ar y pump arall hefyd, rhag ofn iddyn nhw fynd ar goll.

Pan oedd y teulu ar fin troi'n ôl pwy oedd yn nofio'n braf tuag atyn nhw ond y cyw bach oedd wedi bod ar goll.

Yn ôl â nhw i gyd i gludwch y nyth ac yno y buo nhw'n gorwedd yn glyd yng nghesail yr iâr.

Roedd yr haul yn machlud yn goch dros y gorwel. Roedd hi'n argoeli'n ddiwrnod braf drannoeth. Dechreuodd nosi a daeth y sêr i'r golwg. Pendwmpiodd y teulu i gyd. Yn sydyn cododd y ceiliog ei ben. Gwelodd gysgod tywyll yn nesu at y nyth. Cyn iddo gael cyfle i symud roedd y llwynog wedi neidio ar y nyth. Ceisiodd yr iâr ei gorau glas i amddiffyn y cywion.
Erbyn y bore roedd tri o'r cywion yn farw wrth ymyl y nyth a dau arall wedi diflannu. Dim ond un cyw bach oedd ar ôl. Nofiodd y ceiliog, yr iâr a'r unig gyw bach ar hyd yr afon. Ddaethon nhw ddim yn ôl i'r nyth y flwyddyn honno.

Wnei di, O Dduw, f'amddiffyn bob amser. Amen.

✦ Sut anifail ydi'r llwynog? Pa eiriau fyddech chi'n eu defnyddio i'w ddisgrifio?
✦ Ydych chi'n credu fod yr elyrch wedi gwneud eu gorau i amddiffyn y cywion?